OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 372

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022

## RHAN 9

## Diwygiadau amrywiol a chanlyniadol

*Diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau sefydlu*

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021**

**40.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(d) (cychwyn darpariaethau penodol) hepgorer "11,".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "aelod Bannau Brycheiniog", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(b) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(3);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog" ("*the Brecon Beacons National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(4) Yn rheoliad 8(2B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(5) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(6) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y Canolbarth os yw'r person—

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y Canolbarth;

(ii) is-bwyllgor i CBC y Canolbarth;

(**1**) O.S. 2021/342 (Cy. 96).

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(7) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(2B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(8) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor neu aelod Bannau Brycheiniog o CBC y Canolbarth bleidleisio drwy ddirprwy."

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021**

**41.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "aelod Bannau Brycheiniog", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(b) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(3);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog" ("*the Brecon Beacons National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(3) Yn rheoliad 8(2B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(4) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(5) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y De-ddwyrain os yw'r person—

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y De-ddwyrain;

(ii) is-bwyllgor i CBC y De-ddwyrain;

(**2**) O.S. 2021/343 (Cy. 97).

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(6) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(2B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(7) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor neu aelod Bannau Brycheiniog o CBC y De-ddwyrain bleidleisio drwy ddirprwy."

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021**

**42.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(d) (cychwyn darpariaethau penodol) hepgorer "11".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(b) yn y diffiniad o "aelod Eryri", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(3);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri" ("*the Snowdonia National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(4) Yn rheoliad 8(2B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(5) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(6) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y Gogledd os yw'r person—

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y Gogledd;

(ii) is-bwyllgor i CBC y Gogledd;

(**3**) O.S. 2021/339 (Cy. 93).

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(7) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(2B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(8) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor neu aelod Eryri o CBC y Gogledd bleidleisio drwy ddirprwy."

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021**

**43.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(d) (cychwyn darpariaethau penodol) hepgorer "11".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "aelod Bannau Brycheiniog", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(b) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(4);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro" ("*the Pembrokeshire Coast National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog" ("*the Brecon Beacons National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(4) Yn rheoliad 8(3B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(5) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(6) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y De-orllewin os yw'r person—

(**4**) O.S. 2021/352 (Cy. 104).

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y De-orllewin;

(ii) is-bwyllgor i CBC y De-orllewin;

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;

(iii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(7) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(3B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(8) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor, aelod Bannau Brycheiniog neu aelod Arfordir Penfro o CBC y De-orllewin bleidleisio drwy ddirprwy."